# Astudiaethau Achos Rhaglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) 2014-2015.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at enghreifftiau o'r mathau o waith a fu'n bosibl yn ystod 2014-15 oherwydd y Rhaglen Ariannu, sef y seithfed flwyddyn o Raglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Mae'n gasgliad o'r enghreifftiau a ddarparwyd gan yr awdurdodau, a chafodd eu strwythuro i adlewyrchu a phwysleisio prif bwyntiau a nodweddion y gwaith a wnaed.

Mae'n mynd gyda *Rhaglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Adroddiad Allbynnau Diwedd Blwyddyn.*

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Ar lawr gwlad…

Cafodd y rhan fwyaf o'r arian (£760,505 neu 76%) ei ddefnyddio i wneud gwelliannau ymarferol i fynediad sy'n bodoli eisoes. Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith ledled Cymru:

## **Gogledd Cymru: Gwynedd**:

**Llwybr Cyhoeddus 12, Buan**
Yn dilyn nifer o gŵynion a cheisiadau am gymorth gan dirfeddianwyr, gwnaethpwyd gwaith i osod giatiau clicied neu giatiau mochyn o un pen i'r llwybr i'r llall yn lle camfeydd pren a oedd yno ers un mlynedd ar ddeg. Mae'r llwybr yn rhan o gysylltiad rhwng y gogledd a'r de, o ardal Nefyn yn y gogledd i Garnfadryn yn y de.

Cyn:





Ar ôl:






# Ar lawr gwlad…

## Gogledd Cymru: Gwynedd

Gwnaethpwyd gwelliannau sylweddol ar y cyd â menter Cyngor Cymuned Llanfrothen i farchnata mwy yn lleol a chynyddu cyfleoedd busnes drwy greu nifer o deithiau cylchol. Ar ôl ymgynghori'n helaeth, gwnaethpwyd gwaith gan ddefnyddio grant 'RoWIP' gan ddod i ben drwy lansio'r llwybrau a gwefan y pentref yn swyddogol, a dangoswyd hyn ar S4C. Cafodd llyfrynnau o ansawdd da eu creu gan y cyngor cymuned.




### Llwybr Cyhoeddus Rhif 39, Talsarnau

Roedd nifer o gŵynion wedi dod i law dros y tair blynedd ddiwethaf ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus. Mae'r llwybr yn croesi cynefin gwlyptir a ddynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae'n rhan o gysylltiad cylchol poblogaidd ar gyfer pentref bychan Soar a chymuned Talsarnau yn ehangach.


Roedd y ffosydd draenio presennol wedi cau gan mwyaf, a hynny dros gyfnod o amser, ac roedd y llwybr dan ddŵr am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Roedd y dŵr dros 6" o ddyfnder, heblaw am gyfnodau o sychder.

Drwy ymgynghori'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru a thirfeddianwyr, gwnaethpwyd cynlluniau gan Ymgynghoriaeth Gwynedd i ddylunio sarn wedi'i godi ar gyfer y llwybr, gyda cheuffosydd o danodd, er mwyn cynnal hydroleg y gwlyptir, a datrys natur ddyfrlawn y llwybr ar gyfer y defnyddwyr.

# Ar lawr gwlad…

## Gogledd Cymru: Sir Ddinbych

### Milltiroedd Cymunedol Llangynhafal a Hendrerwydd




Yr ethos y tu ôl i'r prosiect Milltiroedd Cymunedol yw cael y gymuned leol a'r awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth i wella'r modd y caiff mynediad at y rhwydwaith hawliau tramwy ei hyrwyddo yn y gymuned. Mae Llwybr Hanes Llangynhafal a Hendrerwydd yn rhan o'r gyfres Milltiroedd Cymunedol, a chafodd ei lansio ar 13 Mehefin 2014 gan Darren Millar, yr Aelod o'r Cynulliad dros Orllewin Clwyd. Mae'r daflen yn darparu dewis o lwybrau cylchol, sy'n cynnwys Dyffryn Clwyd, Parc Gwledig Moel Famau a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Mae'r llwybrau'n mynd heibio nifer o nodweddion hanesyddol, sy'n cynnwys safleoedd wyth o ffermdai unig, ffynnon sanctaidd hudolus ac eglwys drawiadol Sant Cynhafal.



Arweiniodd y prosiect at ddau brosiect arall yn yr un ardal, a llwyddodd i gael arian o'r Gronfa Datblygu Gynaliadwy a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Roedd llyfryn Hanes Plwyf Llangynhafal yn golygu ymgynghori'n helaeth â'r gymuned drwy ddigwyddiadau i gasglu atgofion, hanesion a lluniau i ddogfennu bywyd yn y plwyf. I gloi, crëwyd pedwar panel gwybodaeth i roi brasluniau a gwybodaeth am hen adeiladau yn yr ardal fel y cyswllt olaf yn y gyfres hon o brosiectau sy'n ategu ei gilydd ac yn dangos y cysylltiad cryf a ddatblygwyd rhwng yr awdurdod lleol a'r Gymuned leol – sef prif nod Milltiroedd Cymunedol.

# Ar lawr gwlad…




## Gogledd Cymru:  Sir y Fflint

**DATGANIAD I'R WASG**

Mae llwybr troed sy'n cynnig cyswllt hanfodol rhwng Treffynnon a Holway wedi cael ei wella'n sylweddol yn dilyn gwaith helaeth gan Gyngor Sir y Fflint, ac fe'i cynhaliwyd gyda chefnogaeth cymorth grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Roedd y gwaith yn cynnwys torri llystyfiant, disodli hen ddraen a darparu arwyneb carreg. Mae'r llwybr troed, sy'n rhan o lwybr pellter hir o'r enw Llwybr y Pererinion rhwng Ffynnon Santes Gwenffrewi, Treffynnon ac Ynys Enlli. Mae hefyd yn cysylltu â Maes Glas a Llwybr Arfordir Cymru, a agorwyd yn ffurfiol yn 2012.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd: "Mae'r Tîm Hawliau Tramwy yn darparu gwasanaeth gwerthfawr wrth gynnal y rhwydwaith llwybrau troed i drigolion ac ymwelwyr i fwynhau cefn gwlad hardd Sir y Fflint.

"Rwy'n falch iawn bod y gwaith rhwng Treffynnon a Holway wedi cael ei gynnal i safon mor uchel a dylai roi hwb i dwristiaeth yn ardal Treffynnon a'r tu hwnt.

Roedd y gwaith hwn yn un o nifer o gynlluniau a gynhaliwyd i wella llwybrau troed a llwybrau ceffylau ar hyd a lled Sir y Fflint dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf gyda chymorth gan CNC fel rhan o'i raglen ariannu i weithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir y Fflint.

## Canolbarth a Gorllewin Cymru: Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Cyswllt cymunedol cylchol â Llwybr Arfordir Cymru**

Mae llwybr cyhoeddus 42/24 yn rhan o daith gylchol a hyrwyddir ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Dyma lwybr poblogaidd a ddefnyddir gan y trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac mae nifer fawr o'r ymwelwyr yn aros yn y parc cabanau gwyliau gerllaw. Roedd ategwaith y bont droed dros y nant wedi cael ei danseilio ac roedd angen cael pont droed â mwy o rychwant iddi yn lle'r bont bresennol, a chodi ategwaith newydd a mwy sylweddol. Roedd y grant yn hollbwysig ar gyfer prynu deunyddiau (cit pont bren 10 metr) a threfnu bod contractwr yn symud y bont a oedd wedi cael ei thanseilio, castio ategwaith concrid newydd a gosod y bont newydd. http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Walk%20PDF/short_walks/english/wisemansbridge_pleasantvalley.pdf

# Ar lawr gwlad…

## Canolbarth a Gorllewin Cymru: Ceredigion

### Rhwydwaith Llwybrau Troed Llangynllo

Nid oedd modd mynd at ddau lwybr yn y rhwydwaith o lwybrau troed ger Eglwys Llangynllo, sy’n adeilad rhestredig gradd 11*. Ni ddefnyddiwyd y llwybrau ers sawl blwyddyn ac roeddent wedi cau mewn ambell fan. Gosodwyd camfeydd cartref er mwyn eu huwchraddio i safon dderbyniol. Penderfynwyd gwella’r llwybrau hyn dan Raglen Ariannu ROWIP gan ddefnyddio’r gweithlu gwirfoddol er mwyn lleihau costau. Bu hwn yn brosiect a fu’n werthfawr a llawn boddhad i’r gwirfoddolwyr.

Gosodwyd pedair giât, pyst marcio tair ffordd a phont drawstiau. Gan ddefnyddio’r dechneg ‘Toriad a Llenwad‘, graddiwyd llawer o’r llwybr ar lethr drwy’r coed, a chliriwyd gwastraff a changhennau a oedd wedi cwympo. Tynnwyd mieri a gwnaethpwyd rhywfaint o waith draenio â llaw.











# Ar lawr gwlad…

## De Cymru:  Rhondda Cynon Taf

Cyfeiriwyd yr ardal hon i'r awdurdod gan y grŵp lleol o gymdeithas y 'Ramblers', a heb arian ni fyddai gwelliant o'r fath wedi cael ei gwblhau. Dyma enghraifft arall o welliant angenrheidiol i rwydwaith sydd hefyd yn angenrheidiol.







## Abertawe

Mae'r Cynllun Gwella Llwybrau Cymunedol ym Mawr wedi'i gwblhau'n llwyr bron ar ôl nifer o flynyddoedd o waith caled i agor y rhwydwaith anghofiedig hon i'r cyhoedd. Er bod y rhan fwyaf o'r arian wedi dod o'r RDP, heb grant ROWIP ni fyddid wedi cael arian cyfatebol i ddenu arian yr RDP ac felly ni fyddai fawr ddim o'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl.

# Ar lawr gwlad…





## De Cymru: Torfaen

### Pont droed newydd ar Lwybr 159 Llantarnam – Dros Nant Dowlais

Roedd y Cyngor wedi cael nifer o gŵynion am y trafferthion wrth groesi’r afon. Cyfres o gerrig y rhyd oedd y groesfan flaenorol. Dros amser roedd y cerrig wedi golchi ymaith. Nid oedd dewis diogel arall a’r unig ffordd o groesi’r afon oedd cerdded drwy’r dŵr. Penderfynwyd gosod pont droed newydd gydag arian ROWIP. Ymgynghorwyd â CNC, a chafwyd caniatâd ganddynt i fwrw ymlaen â’r prosiect.

Dyluniwyd y bont gan y ceidwad cefn gwlad, a’i gwneud gan gwmni dur lleol. Codwyd yr ategwaith gan y ceidwaid cefn gwlad, a chwblhawyd y gwaith adeiladu gan y tîm mynediad cefn gwlad gyda chymorth hyfforddeion Sgiliau ar Waith Cronfa Dreftadaeth y Loteri o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.



### Gwelliannau i Arwyneb – Llwybrau Troed 159 Llantarnam

Cafodd wyneb y llwybr troed ei wella er mwyn cael gwell mynediad at y bont newydd. Erbyn hyn mae’r prosiect yn rhoi mynediad diogel rhwng Ystâd Dai Oakfield ac Ystâd Ddiwydiannol Llantarnam a’r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn ehangach.





# Aml fudd…

Unwaith eto, roedd dros hanner y prosiectau a wnaed dan y Rhaglen Ariannu ROWIP o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr, gyda phrosiectau a oedd “o fudd cyffredinol i bob defnyddiwr” a phrosiectau “aml fudd” (sef o fudd i fwy nag un math o ddefnyddiwr) yn 53% o holl werth y prosiectau a ariannwyd eleni.

## Gogledd Cymru: Sir Ddinbych

Un o’r prif ganlyniadau a gafwyd drwy’r ROWIP dan DE2 yn 2014/15 i wneud llwybrau ar gyfer ceffylau a seiclwyr oedd sicrhau ateb hirdymor i ran o’r llwybr ceffyl yng Nghoed Tawrn ger Coleg Llysfasi, sy’n rhan hanfodol o lwybr Sea Horse y Gymdeithas Ceffylau Prydain, gan osgoi’r angen i ddefnyddio Ffordd ‘A’ brysur. Roedd problemau erydu hirdymor yn golygu bod y llwybr yn dod i ddiwedd ei oes a bod angen dros £40,000 i’w ailgodi er mwyn ail-lefelu a lledu’r llwybr ar gyfer ceffylau. Arweiniodd trafodaethau â thirfeddianwyr at ailosod y llwybr ceffyl i ddarn newydd o goetir er mwyn osgoi’r ardal nad oedd modd mynd drwyddi, a hynny am ddim ond 25% o’r gost wreiddiol. Ceisir gwneud rhagor o welliannau i’r llwybr ceffyl dros y flwyddyn nesaf (gwella giatiau) nawr fod y llwybr sydd wedi’i ailosod yn un addas.



## Canolbarth a Gorllewin Cymru: Cyngor Sir Penfro

### Rhodfa Glan yr Afon Fortunes Frolic, Hwlffordd

Prin yw’r ardaloedd sydd gan Sir Benfro i roi mynediad aml alluog i Gefn Gwlad. Nid yw’r seilwaith na’r dopograffeg angenrheidiol ar gael yn y rhan fwyaf o lefydd. Mae Llwybr Frolic yn hen lwybr ar hyd glan yr afon a cheir mynediad iddo oddi ar ffordd dawel ar gyrion Hwlffordd. Mae digon o le parcio, ac mae golygfeydd trawiadol o lan yr afon. Mae’r llwybr yn caniatáu mynediad uniongyrchol o ganol y dref i gefn gwlad. Parhad drosodd…

# Aml fudd…

Bu Cyngor Sir Penfro yn gweithio gyda'r tirfeddiannwr, cadwraeth CNC a chynghorau lleol i gynllunio, hyrwyddo a gweithredu'r prosiect. Cafodd Swyddog Mynediad yr Awdurdod ei gynnwys hefyd yn y prosiect er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mewn rhai mannau, roedd y llwybr wedi'i erydu'n ddifrifol gan yr afon, roedd wedi tyfu'n wyllt ar ôl blynyddoedd lawer o esgeuluso, ac roedd yn gul iawn gyda llwybrau croes yn serth iawn oherwydd blynyddoedd o waddod a dyddodion llystyfiant.

Darparodd nifer o feinciau a sedd gan y contractwr, ac maent wedi'u gosod ar hyd y rhan o'r llwybr sydd wedi'i orchuddio.

Caiff y llwybr ei frandio a'i chodir arwyddion er mwyn rhoi teimlad o sicrwydd i'r grwpiau targed. Hefyd, trefnwyd arwyddion newydd ar gyfer y rhannau byr o'r briffordd sy'n cysylltu.

## Canolbarth a Gorllewin Cymru: Ceredigion

### Cyswllt llwybr Lledrod i Ystwyth

Roedd yn amlwg fod problem arbennig o ran cysylltu rhai lleoliadau â Llwybr poblogaidd Ystwyth yng Ngogledd Ceredigion. Roedd ymuno â'r llwybr o Ledrod a'r cyffiniau drwy ddefnyddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus bron yn amhosibl heb ddefnyddio ffyrdd. Roedd rhwydwaith da o lwybrau ceffyl ond roeddent yn anhygyrch mewn nifer o fannau. Penderfynwyd gwneud gwaith gwella ar yr Hawliau Tramwy hyn dan Raglen Ariannu ROWIP. Cynhaliwyd arolygon, ymgynghorwyd â thirfeddianwyr, lluniwyd amserlenni gwaith a chynhaliwyd cyfarfodydd ar y safleoedd gyda chontractwyr. Roedd angen uwchraddio deg o lwybrau ceffyl, gan gynnwys gosod 22 o giatiau newydd, clirio arloesol, gwaith draeniau a gosod cliciedi hawdd. Cafodd y gwaith gwella cychwynnol ei wneud ar wyth llwybr, a chaiff dau arall ei gynnwys os oes digon o arian ar gael erbyn diwedd y rhaglen.

Rhannwyd y gwaith rhwng contractwyr a gweithlu gwirfoddol y Ramblers. Cafodd gwaith ar ddau lwybr ceffyl ei wneud gan y gwirfoddolwyr. Ar yr enghraifft isod (BW 25/32), gosodwyd pum giât, ailhongian sawl un arall a gosod naw clicied hawdd.







# Aml fudd…

## Canolbarth a Gorllewin Cymru:  Powys

### Llwybr Glyndŵr



Mae'r llwybr ceffyl a oedd wedi'i ddifrodi'n ddrwg yn Abaty Cwm Hir wedi cael ei atgyweirio a'i wella erbyn hyn. Talwyd am y rhan fwyaf o'r gwaith gyda £4000 o gyfraniad o gronfa ROWIP Cyngor Sir Powys. Gelwir y llwybr ceffyl yn Watery Lane yn lleol, a bu'n llwybr gwlyb erioed. Ond dros y flwyddyn ddiwethaf, bu beiciau modur yn ei ddefnyddio'n anghyfreithlon gan achosi rhigolau dwfn yn yr wyneb.

Aeth y rhigolau'n ddyfnach fyth oherwydd dŵr yn rhedeg, gan arwain at lwybr a oedd yn annifyr i gerddwyr, yn anodd i seiclwyr, ac yn beryglus i farchogion. Tynnodd cynrychiolydd o Gymdeithas Ceffylau Prydain sylw at broblem sef bod marchogwr wedi llithro i un o'r rhigolau dwfn wrth geisio mynd ar hyd y llwybr.



Mae'r contractwr wedi llenwi'r holl rigolau, wedi lledu'r llwybr fymryn, wedi rhoi wyneb cerrig newydd arno, wedi gwneud sianel ddraenio ar yr ochr, wedi ailbroffilio pen y llwybr lle mae'n cwrdd â ffordd fechan, ac wedi gosod giât i gae (a chlo arni), ffensys a dwy gamfa geffylau.

Bu Adran Priffyrdd Cyngor Sir Powys yn helpu i glirio ceuffos broblemus a oedd yn gollwng dŵr i lawr y llwybr yn hytrach nag i ffos ddraenio.

Bu adran goedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu hefyd drwy gytuno i osod un o'r camfeydd ceffylau er mwyn atal y llwybr rhag cael ei ddefnyddio fel rhan o gylch beiciau modur.

Mae marchogwyr lleol wrth eu boddau gyda'r canlyniad, ac maent wedi defnyddio'r camfeydd yn ddidrafferth. Dylai'r camfeydd atal y beicwyr modur rhag ei defnyddio a gwneud rhagor o ddifrod, a chael gwared ar y posibilrwydd o wrthdrawiad o fewn cyfyngiadau cul y llwybr ceffyl.

# Aml fudd…

## De Cymru: Merthyr Tudful

**Canfod a chynnal prosiectau penodol i gynnwys darpariaeth ar gyfer pawb**

Mae gan yr awdurdod gynllun ar gyfer rhesymoli rhwystrau ar y rhwydwaith llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo er mwyn gwneud pethau'n hawdd i ddefnyddwyr cyfreithlon y llwybrau a cheisio atal rhai eraill rhag gwneud defnyddio anghyfreithlon ohonynt.

Mae Llwybr Taf wedi'i rhannu'n adrannau, a'r nod yw cael rhwystr ar ddechrau a diwedd pob adran. Fel rhan o'r broses hon, rhaid rhoi cynigion i'r pwyllgor hawliau tramwy a DMMOau cyn symud y rhwystrau.





## Abertawe

Mae un prosiect wedi cael gwared ar lwybr hir nad oedd modd ei ddefnyddio (mae traffordd yr M4 yn ei dorri yn ei hanner) a gosod llwybr ceffyl newydd yn ei le. Cadarnhawyd y llwybr newydd a bydd y gwaith yn dechrau i'w agor.

## Rhondda Cynon Taf

Gwnaethpwyd gwelliannau ar arwyneb a draenio ar nifer o gilffyrdd o fewn RhCT, er enghraifft Aberdâr 51. Gosodwyd giatiau llwybrau ceffylau yn Rhigos 10, a hefyd prynwyd a gosodwyd 14 o giatiau o wahanol feintiau ledled y sir mewn ardaloedd lle'r roedd defnyddwyr lleol wedi dweud bod angen sylw. Mae'r math hwn o weithredu yn wastad yn llwyddiannus, yn defnyddio contractwyr pan fo angen ar gyfer gwaith crefftus ac yn gwneud y gorau o'r tîm mewnol ar gyfer gwelliannau llai ond sydd yr un mor bwysig.

# Aml fudd…

## De Cymru:  Casnewydd

**Adeiladu Llwybrau Ceffyl er mwyn rhoi mynediad diogel i Farchogwyr**

Trefnwyd y gwaith fel rhan o Raglen ROWIP 2014/2015 o ganlyniad i gynnydd yn y galw am fynediad arall ar lwybr ceffylau at y rhwydwaith llwybrau ceffylau yng Nghanolfan Camlas Fourteen Locks.

Bu cynnydd cyffredinol yn nifer y stablau ac yn nifer y marchogwyr yn y fan hon, ond ar benwythnosau yn ystod yr haf a gwyliau'r banc mae ardal y ganolfan ymwelwyr yn brysur iawn wrth i gerddwyr a thraffig ddod i'r maes parcio. Oherwydd bod mynediad yn cael ei rannu gyda cheffylau mynegwyd pryderon oherwydd bod angen iddynt gyrraedd y llwybr ceffyl drwy'r prif faes parcio.

Gydag arian ROWIP codwyd llwybr mwy diogel er mwyn i farchogwyr allu mynd i'r rhwydwaith llwybrau ceffyl mewn lle llai prysur a mwy diogel draw oddi wrth y maes parcio/canolfan ymwelwyr.





# Aml fudd…



## De Cymru: Sir Fynwy

**Prosiect Rhoi Arwyneb ar Gilffordd Gyfyngedig Tir Comin Trostre**.

Fel y gwelir yn y lluniau (ar y dde), roedd wyneb gwael ar y Gilffordd Gyfyngedig hon. Bu Swyddog Maes Sir Fynwy yn trafod y sefyllfa â thrigolion yr ardal a chael dyfynbrisiau. Rhoddwyd arwyneb tarmac ar yr 80m cyntaf o’r Gilffordd Gyfyngedig, ac yna cafodd y darn ar oedd ar ôl ei atgyweirio hyd at i gyffordd â llwybr troed.

**Gray Hill: Rhoi Arwyneb**

Roedd problemau gan y gilffordd gyfyngedig hon (lluniau isod) gyda thyllau mawr ar y darn sydd â wyneb arno. Roedd y prosiect angen cyflogi contractwr i glirio llystyfiant er mwyn cael holl led y llwybr a chrafu a llenwi’r man gwlyb.











# Mynediad i bawb…

Yn 2014/15 er y dylai pob prosiect ymarferol ddilyn y dull mynediad lleiaf cyfyngol, roedd hefyd rai prosiectau penodol wedi cael eu cyflawni er mwyn gwneud mynediad yn haws ac annog pobl i fod yn fwy egnïol.

**Gogledd Cymru: Sir Ddinbych**

**Dewch i Gerdded yn y Flwyddyn Newydd.**

Roedd y digwyddiad Dewch i Gerdded yn y Flwyddyn Newydd yn ceisio cael pobl nad ydynt yn arfer ymweld â chefn gwlad i gerdded er lles eu hiechyd. Er nad oedd y digwyddiad yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Raglen ROWIP roedd y digwyddiad yn defnyddio llwybrau a gafodd eu gwella oherwydd y rhaglen yn y gorffennol, gan ddangos y budd pendant o gael cynllun hirdymor sy'n ei gwneud yn bosibl i wneud gwelliannau dros nifer o flynyddoedd. Ymunodd grwpiau cerdded lleol ym Mharc Gwledig Loggerheads i ddangos pam fod cerdded yn dda i'ch iechyd ac i ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Mynediad i Bobl Anabl ddydd Sadwrn 17 Ionawr. Roedd y digwyddiad yn cynnwys teithiau'n amrywio o ran pellter, sesiynau blasu Cerdded Nordig, her pedomedr a helfa drysor i blant. Roedd y digwyddiad yn tynnu sylw hefyd at y Cynllun Dewch i Gerdded, sy'n rhoi cyfle i bobl ymuno â grŵp cerdded wythnosol i wella eu hiechyd ac sydd eto'n defnyddio llawer o'r llwybrau a gafodd eu gwella drwy'r ROWIP a'r Cynllun Milltiroedd Cymunedol. Daeth Kenneth Skates AC Dirprwy Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru draw.



## Canolbarth a Gorllewin Cymru: Powys

**Adroddiad ROWIP – Prior Groves, Ymestyn Llwybr Troed**

Erbyn hyn, mae'r llwybr troed mynediad i bawb yn Priory Groves wedi cael ei ymestyn 40m. Bydd hyn yn ymestyn y llwybr troed fel y gall ymwelwyr eistedd a mwynhau golygfeydd o'r afon Honddu a'r coetir o'r enw Priory Groves, gyda'r holl fywyd gwyllt sydd yno a'r newidiadau cynnil yn ystod y tymhorau ac y gellir eu gweld drwy gydol y flwyddyn erbyn hyn.
Fel rhan o'r £5000 o grant ROWIP, penderfynwyd y dylid gosod mainc bicnic, bydd hyn yn golygu bod pawb sy'n cyrraedd y lleoliad yn gallu eistedd a mwynhau'r llecyn.
Parhad drosodd…

# Mynediad i bawb…






Dewiswyd y fan hon gan ei bod yn gymharol agos at dai lleol, ac mae un o'r prif lwybrau mynediad i Aberhonddu ar ochr orllewinol afon Honddu.

**Llwybr Troed wedi'i Ymestyn gydag arian ROWIP**

Mae'r ardal lle mae'r fainc bicnic yn lle gwlyb a mwdlyd erioed, a hynny yn yr haf hyd yn oed. Gosodwyd draeniau yn ogystal â cherrig wedi'u malu er mwyn creu ardal llawr caled y gellir mynd iddo o'r fynediad i Priory Groves o'r dref. Mae hyn yn rhoi mynediad eithaf gwastad i ymwelwyr am ryw 200m ar hyd rhodfa ar lan yr afon i'r goedlan.

Mae'r llwybr troed o ardal y fainc bicnic at y bont (llun uchaf) yn dilyn llinell hen ffrwd ddiwydiannol a oedd yn cael ei defnyddio i bweru hen felin. Mae'r ardal hon eto yn wastad wedi bod yn un wlyb a mwdlyd, a'r mynediad wedi bod i unigolion cydnerth mewn esgidiau da yn unig. Erbyn hyn mae wedi'i gwella ac mae modd mynd yno drwy gydol y flwyddyn.

**Y Dyfodol**

Y bwriad yw parhau â'r gwelliannau i'r llwybr troed fel y bo modd creu llwybr cylchol yn y pen draw, gyda llefydd aros mewn llecynnau da a gwneud Priory Groves yn atyniad hygyrch i bawb.

# Mynediad i bawb…

## Canolbarth a Gorllewin Cymru: Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae arian ROWIP wedi galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i logi bws mini wedi'i addasu'n arbennig gyda lifft yn y cefn i gludo defnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd er mwyn iddynt allu dod ar gyfres o deithiau tywys. Mae'r rhaglen o deithiau wedi'i hanelu at gyflwyno grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol a phobl anabl i amrywiaeth o gyfleoedd mynediad i gefn gwlad yn y Parc Cenedlaethol. Cafodd y bws mini ei logi 17 o weithiau i hwyluso 17 o deithiau tywys ar gyfer cyfanswm o 71 o bobl. Cymerodd 28 o bobl ran gan ddefnyddio cadair olwyn/sgwter symudedd. Roedd arian grant ROWIP yn hollbwysig er mwyn gallu llogi'r bws mini i sicrhau y gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gymryd rhan.

## De Cymru: Caerffili

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod wedi cyflwyno cyfran fawr o'i gyllideb ROWIP i brosiect ar gyfer pobl llai abl. Drwy ddefnyddio'r arian hwn, mae wedi gwneud ymdrech benodol i osod giatiau yn lle camfeydd, a hynny gyda chytundeb tirfeddianwyr a hefyd wedi rhoi gwell arwyneb ar lwybrau mewn ardaloedd trefol ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd. Mantais arall hyn yw gwella'r rhwydwaith i ddefnyddwyr eraill megis rhai sy'n gwthio coetsys neu er mwyn cael llwybrau diogel ar gyfer plant ysgol.



## Merthyr Tudful

**Canfod lleoliadau a gosod 5 o feinciau ar gyfer cadeiriau olwyn ledled y bwrdeistref sirol**

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu hyn yn ganlyniad llwyddiannus i ddefnyddwyr y rhwydwaith llwybrau. Yn y blynyddoedd a fu gosododd yr awdurdod feinciau heb gefn arnynt, ac eleni gosodwyd byrddau picnic sy'n addas i gadeiriau olwyn.

# Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd…

Bu camau i wella gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ynglŷn â mynediad llinellol yn ffordd sy’n boblogaidd yn gyson o ddefnyddio’r arian dros oes y rhaglen.


EXPLORE BRIDGEND

**Explore Bridgend’s Countryside**

Did you know there’s some beautiful countryside and inspiring coast line in Bridgend, what’s more, **with a network of over 650Km of public rights of way and off-road cycle tracks it’s just waiting to be explored free of charge.**

**The network is managed by Bridgend County Borough Council’s Rights of Way team and, over the past 12 months, they have been carrying out even more improvements to the public path network to make it more accessible.**

This year the Welsh Government and Natural Resources Wales has provided more than £32,000 of grant funding to the Council as part of the Rights of Way Impovement Plan funding programme. This brings the total grant received over the past 7 years to almost £400,000. Surfaces have been improved on footpaths and bridleways and a number of gates, bridges and other facilities designed to improve access have been replaced or repaired.

Orders have been processed which will amend the Definitive Map, particularly in relation to the network around Parc Slip Nature reserve. Historical research and discussions with users and landowners have also helped the Council determine a number of applications for Definitive Map Modification Orders.

The Rights of Way team also promote walking, cycling and equestrian routes in the area varying from short circular village walks to longer distance routes such as the Bridgend section of the Wales Coast Path.

**To obtain free walks leaflets or to discuss any public rights of way issues in Bridgend call the Team on 01656 642537 / 642553 or email rightsofway@bridgend.gov.uk**

**Merthyr Mawr**
Explore the sand dunes at Merthyr Mawr by following the Wales Coast Path or the Newton to Candleston Circular Walk. The sand dunes are unusual because they have formed against a limestone plateau that helps make one of the dunes here one of the highest in Europe, locally known as the ‘big dipper’. The area is designated a Site of Special Scientific Interest, a Special Area of Conservation and a National Nature Reserve because its wide range of habitats supports a wealth of plants and insects.’

“Bridgend has 740 Public Rights of Way totalling just over 584km”

26 | AROUND TOWN MAGAZINE

EXPLORE BRIDGEND

**Love2Walk Festival**
The glorious weather in June 2014 provided the perfect backdrop for the Council’s 5th Annual Walking Festival. Returning to its traditional 9 day format over 250 people enjoyed more than 25 walks.

**Parc Slip**
The Rights of Way network around the Parc Slip Nature Reserve has been temporarily suspended since opencast coal operations started in the 1970’s. Orders confirmed during this year means that the rights of way network in this area is once again open.

**Garw Bridge**
The Council has been keen to increase access for under-represented groups including upgrading various structures such as this footbridge in the Garw Valley. Equestrians are now able to use the bridge and the route either side is in the process of being created as a bridleway.

**Access For All**
Part of the Rights of Way Improvement grant has been allocated to improving surfaces to provide better access for people with limited mobility, families with pushchairs and people in wheelchairs.

**Historic Routes**
Some ancient highways and routes which have been used for 20 years or more may not currently be registered as public rights of way. This year the Council has determine a number of applications which have sought to register these routes as public rights of way.

AROUND TOWN MAGAZINE | 27




Family & education

**Nine Days**

**OF WALKING THROUGH THE GLORIOUS BRIDGEND COUNTRYSIDE**

Saturday 21st June to Sunday 29th June 2014

It’s that time again! Bridgend’s Love2Walk Festival is not only returning for a 5th year but it’s making a move to earlier in the year. This year will see a return to the traditional 9 day format as the Festival runs from the **21st – 29th June 2014**. It is being organised and run in partnership with the Bridgend Local Access Forum.

The organisers of the Love2Walk Festival have unveiled their programme for this years event and it’s as varied as ever. There will be longer walks, shorter walks and special interest walks with an eclectic mix of experiences for dabblers, families, the novice walker and those with more experience. There are also 2 evening events that everyone is welcome to join, whether they are walkers or not.

The Festival will begin with a circular walk we’re calling the “2 Castles and a Chapel” walk. It will be led by members of the Local Access Forum and participants can expect to learn more about ancient sites and local wildlife on a walk from Bridgend to Merthyr Mawr and back.

Old favourites such as the Batwalk, heritage walks, geocaching and ‘Meet the Dairy Cows’ will be back but there will also be new experiences like the story walks. Local experts will be involved in many of the walks so expect to learn more about the area.

**FOR FURTHER INFORMATION AND A PROGRAMME OF WALKS VISIT WWW.LOVE2WALK.CO.UK EMAIL LOVE2WALK@BRIDGEND.GOV.UK OR TELEPHONE 01656 642593**

80 / WEAREVOICE.CO.UK / JUNE 2014

@wearevoice



## De Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ystod y flwyddyn, paratôdd y tîm Hawliau Tramwy erthygl hysbysebu ar gyfer y cylchgrawn ‘Around Town – Bridgend’ erbyn dechrau 2015. Diben yr hysbyseb oedd tynnu sylw at yr holl waith a wneir gan dîm Hawliau Tramwy’r Cyngor, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan ddefnyddio arian RoWIP. Defnyddiwyd ffotograffau i ddangos rhywfaint o’r gwaith a wnaed fel rhan o raglen ariannu RoWIP.


Roedd yr hysbyseb yn tynnu sylw hefyd at y taflenni a gyhoeddodd y Cyngor, gan ddweud eu bod ar gael yn rhad ac am ddim. Mae’r hysbyseb i’w ymddangos yn llwyddiannus iawn gan fod nifer o geisiadau wedi dod inni anfon copïau o deithiau’r Cyngor i aelodau o’r cyhoedd.

# Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd…

## De Cymru: Castell-nedd Port Talbot

### Map newydd ar-lein yn rhoi'r cam cyntaf ar gyfer cerdded yng Nghastell-nedd Port Talbot

Mae cerddwyr sy'n awyddus i grwydro Castell-nedd Port Talbot yn gallu dechrau ar eu gwaith ar-lein diolch i fap cerdded rhyngweithiol newydd ar gyfer y bwrdeistref sirol. Nawr, gall defnyddwyr fewngofnodi yn www.npt.gov.uk/walking a dewis taith sy'n cyd-fynd â'u diddordebau. Cânt fap i'w argraffu, gyda disgrifiad o'r llwybr, y pellteroedd, mannau o ddiddordeb a thaflenni gweithgareddau i blant gydag enghreifftiau o fywyd gwyllt i chwilio amdanynt. Mae'r map yn dangos y teithiau godidog sydd ar gael yn y Sir, gan gyfeirio at hawliau tramwy, rhaeadrau, llwybrau gwledig a llwybrau arfordirol. Nod y prosiect yw annog pobl i gerdded yn annibynnol yn eu bywydau pob dydd ac fel gweithgaredd i blant ei fwynhau yn rhad ac am ddim.




**Lansiad:** Cynhaliwyd cyfres o 10 o deithiau tywys rhwng Hydref a Rhagfyr 2014 i lansio'r Map Cerdded Rhyngweithiol ar-lein ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Roedd y teithiau'n cynnwys hawliau tramwy ac roeddent yn annog pobl o bob oedran i gerdded yn annibynnol yn yr ardal. Cysylltwyd ag Ysgolion Lleol, grwpiau cerdded, mudiadau cymunedol a sefydliadau iechyd er mwyn iddynt gymryd rhan.



# Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd…

Yn ogystal â’r enghreifftiau uchod o’r amrywiaeth o bethau a wnaethpwyd ledled Cymru yn 2014/15, bu cynnydd amlwg yn nifer yr awdurdodau a drodd at ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i’w gwaith ROWIP.







## De Cymru: Sir Fynwy

Enghreifftiau o Drydariadau am waith yn Sir Fynwy.




## De Cymru: Merthyr Tudful

**Mae gwaith gyda grwpiau cymunedol ac ysgolion lleol** i ddatblygu a hyrwyddo cynllun llwybrau wedi mynd yn dda iawn, gydag un ysgol wedi ymaelodi’n llwyr ac yn cymryd rhan yn y cynllun.

# Gwella gwybodaeth i reolwyr

Eleni, cyflawnwyd saith o brosiectau o’r fath, sef 6% o gyfanswm yr arian er mwyn gwella cofnodion a chronfeydd data i ddiben rheoli mynediad.

## Canolbarth a Gorllewin Cymru: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

### Datblygu cronfa ddata hawliau tramwy CAMS.

Roedd y grant yn talu am swydd ran amser i fewnbynnu data ac adrodd. Defnyddir CAMS (System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad) ar gyfer Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Penfro, a thros y ddwy flynedd ddiwethaf mae system CAMS wedi cael ei defnyddio i reoli’r rhwydwaith ehangach o hawliau tramwy cyhoeddus. Nid yw’r data gwaelodlin wedi cael ei gasglu ar gyfer holl ardal y Parc Cenedlaethol eto ond mae’r aelod ychwanegol o’r staff, sy’n cael ei ariannu gan y grant, wedi helpu i lenwi’r gronfa ddata. Bu’r swyddog rhan amser yn gweithio ar 22 o ddiwrnodau ac fe fewnbynnodd ddata am gyflwr 249 o hawliau tramwy unigol.

## Powys


### Digideiddio data Mapiau Diffiniol

Darparwyd arian ROWIP yn 2014-15 er mwyn gallu digideiddio data Mapiau Diffiniol oherwydd un o gamau gweithredu ROWIP Cyngor Sir Powys yw creu fersiwn electronig o’r Datganiad a’r Map Diffiniol. Defnyddiwyd yr arian i gomisiynu cwmni allanol i gyflawni tasgau digideiddio ar ran Cyngor Sir Powys.

Nawr, gellir defnyddio data Sir Drefaldwyn a Sir Frycheiniog yn ddyddiol gan swyddogion y Gwasanaethau Cefn Gwladol a’u hintegreiddio i gronfa ddata CAMS, sy’n cael ei defnyddio i gofnodi problemau, gwaith y rhaglen a monitro asedau ar hawliau tramwy a thir mynediad agored. O safbwynt y cyhoedd, gellir edrych ar y data gan gymharu â map cyfoes, felly mae’n llawer haws ei ddeall na’r Map Diffiniol ar bapur. Ar ôl diweddaru’r Datganiadau Diffiniol ar gyfer Sir Drefaldwyn a Sir Frycheiniog, defnyddir y data digidol hefyd i ailgyhoeddi’r Map Diffiniol ar gyfer pob ardal.


# Gwella gwybodaeth i reolwyr

## De Cymru:  Sir Fynwy




**Gwelliannau CAMS/Mapio gan Wirfoddolwyr**
Mae gan Cyngor Sir Fynwy system fapio ar hyn o bryd [http://access.monmouthshire.gov.uk/](http://access.monmouthshire.gov.uk/) sy'n galluogi gwirfoddolwyr a defnyddwyr eraill i lawrlwytho mapiau, gweld mapiau, llwybrau a'u statws, a hefyd i weld pa gelfi sydd ar lwybr. Maent wrthi'n mynd drwy newidiadau mawr sy'n cynnwys:

- galluogi rhagor o grwpiau cymunedol i gynorthwyo i gynnal a hyrwyddo eu rhwydwaith eu hunain
- bod yn arloesol, symleiddio a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg
- galluogi staff Cefn gwlad i wneud mwy na throsglwyddo tasgau'n gynt i grwpiau gwirfoddol, sef drwy sicrhau bod cyn lleied â phosibl o waith papur dibwrpas
- ei gwneud yn haws i Wirfoddolwyr adrodd ynghylch yr hyn maent yn ei wneud




Un o'r meysydd pryder a nodir yn aml yw bod llawer o faterion bychain, megis cyfeirbwyntio, yn cael blaenoriaeth isel wrth flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw ac felly mae ar gronfa ddata'r awdurdod yn disgwyl cael ei drefnu, a hynny am amser maith yn aml. Gallai gwirfoddolwyr fynd i'r afael ag arwyddion o'r fath, ac mae rhai grwpiau megis Chepstow Walkers are Welcome wedi mynegi diddordeb mewn delio â materion o'r fath. Felly, teimlid ei bod yn angenrheidiol ac yn amserol newid y system mapio cyhoeddus fel bod modd i faterion addas a ganfuwyd o'r gronfa ddata CAMS a'u trosglwyddo i'w gwneud gan wirfoddolwyr. Yna, byddai'r gwirfoddolwyr yn mewngofnodi ar y system, yn derbyn y broblem, yn cydnabod eu bod wedi ei derbyn, ac yn cyflawni'r dasg honno. Ar ôl ei gwneud gallent glicio ar y mapio i ddangos ble'r oeddent a dweud beth maent wedi'i wneud. Byddai hynny'n mynd i gorlan wedyn os yw'n cael ei awdurdodi, a'i arbed yn awtomatig yng nghronfa ddata'r awdurdod ar ôl ei gwblhau.

# Buddsoddi mewn Staff a Phobl…

Ar sail yr wybodaeth gan yr awdurdodau a ariannwyd dan y Rhaglen, roedd 9.5 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ddefnyddio Rhaglen Ariannu ROWIP yn 2014/15, o gymharu â 10.5 o staff yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd rhai o'r swyddi'n cynnwys:

**Conwy:** Swyddog Prosiect Cerdded Cymunedol

**Sir Ddinbych**: Swyddog Cerdded Milltiroedd Cymunedol – Rhan Amser

**Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf –** Swyddogion Mapiau Diffiniol

| Adnodd a ddefnyddiwyd i weithredu ROWIP | Nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar waith ROWIP |
|---|---|
| Staff mewnol presennol yr Awdurdod Lleol (cyfuniad o staff parhaol a chyfwerth â llawn amser) | 1672 |
| Contractwyr | 1258 |
| Gwirfoddolwyr | 426.5 |
| Ymgynghorwyr | 432.5 |
| Adnoddau eraill yn ymwneud â staff e.e. gweinyddu | 53 |

Yn ogystal â darparu drwy eu staff eu hunain, ymgynghorwyr a chontractwyr, roedd yn amlwg, wrth lunio'r adroddiad gwaith achos, fod gwirfoddolwyr yn cael eu cynnwys ac yn gwneud cyfraniad er mwyn gwella mynediad yng Nghymru. Ynghyd ag enghreifftiau a gynhwyswyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, tynnir sylw at enghreifftiau penodol drosodd…

# Rheoli'r rhwydwaith a'r gwirfoddolwyr…

## De Cymru: Sir Fynwy



### Hyfforddiant ar Arolygon Pontydd



Mae RoWIP yn dweud yn y Datganiad Gweithredu 7d "Ceisio ffyrdd arloesol a newydd lle gall gwirfoddolwyr gynorthwyo i arolygu, cynnal a hyrwyddo mynediad i gefn gwlad." Mae gan Ddatganiad Gweithredu 7c darged i "sefydlu rhaglen o archwilio safleoedd pontydd am Resymau Iechyd a Diogelwch". Mae'r prosiect hwn i arolygu pontydd yn gymorth i gyflawni hyn ac i ddenu gwirfoddolwyr newydd.



Mae 787 o bontydd ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy yn Sir Fynwy. Mae'r adroddiad rheoli pontydd, a luniwyd yn 2013 gyda chymorth arian ROWIP, wedi nodi amrywiaeth o fesurau penodol ar gyfer archwilio pontydd ac mae wedi canfod yn arbennig fod modd i wirfoddolwyr hyfforddedig archwilio'r pontydd y credir eu bod mewn cyflwr da. Ond dim ond rhai categorïau, fel pontydd trawstiau a phontydd bychain 'cit'.



Roedd hefyd yn nodi bod angen sicrhau bod yr holl staff ac unrhyw wirfoddolwr sy'n gysylltiedig â gwaith pontydd wedi cael eu hyfforddi i ddeall cydrannau pontydd a'r mathau o bontydd y gallant ddisgwyl eu cofnodi/eu harchwilio.

Rhannwyd y gwirfoddolwyr yn barau, a byddant yn archwilio o fis Mawrth 2015 ymlaen. Os byddant yn llwyddiannus, bydd hynny'n arwain at raglen o hyfforddiant rheolaidd a sefydlu cyfundrefn fawr o archwilio pontydd yn Sir Fynwy.

## Caerffili:

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi defnyddio arian ROWIP i helpu i ddatblygu eu rhwydwaith Gwirfoddolwyr. Mae arian wedi galluogi'r Cyngor i sefydlu dau weithgor a nifer o unigolion. Maent wedi gallu gweithio gyda'r cyhoedd i roi hyfforddiant iddynt ar godi a chario offer llaw bychain, technegau arolygu a Chymorth Cyntaf. Maent wedi gallu gwneud gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith a gwneud arolygiadau ar y llwybr sy'n cael ei hyrwyddo. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy mewn cyfnod o gyni i'r Awdurdod Lleol.

Diolch i’r holl Awdurdodau Lleol sydd wedi cyfrannu at y gwaith o lunio’r adroddiad hwn, darparwyd yr holl ffotograffau gan yr awdurdodau eu hunain.

Sylwch fod yr wybodaeth a gasglwyd yma wedi dod yn uniongyrchol o adroddiadau diwedd blwyddyn yr Awdurdodau Lleol ar gyfer blwyddyn ddiwethaf yr RFP.

Lluniwyd yr adroddiad gan Carys Drew, Ymgynghorydd Hamdden a Mynediad a Susan Jackson, Swyddog Ariannu’r ROWIP

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government